

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION O ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU: BYWYD AR Y STRYDOEDD: ATAL A MYND I'R AFAEL Â CHYSGU AR Y STRYD YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yn 'Ffyniant i Bawb' ei bod yn annerbyniol i bobl gael eu gorfodi i gysgu ar y strydoedd mewn cymdeithas ffyniannus. Cysgu ar y stryd yw un o'r mathau mwyaf aciwt o ddigartrefedd ac yr ydym yn cydnabod bod gan y bobl hynny sy'n cysgu ar y stryd anghenion cymhleth yn aml ac mae angen ymateb cydgysylltiedig arnynt gan amrediad o wasanaethau, i'w cynorthwyo. Fel ffordd o gydnabod y flaenoriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru ar wydroi'r cynnydd presennol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd gennym yn ddiweddar a byddwn yn parhau i weithio, ar draws y Llywodraeth, y sector cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r materion hyn ar y cyd.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- **cryfhau'r Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd ar unwaith i nodi disgwyliad clir y dylid pennu pobl sy'n cysgu ar y stryd fel pobl sydd ag angen blaenoriaethol am lety o dan y ddeddfwriaeth bresennol.**
- **cyflwyno gorchymyn o dan adran 72 o *Ddeddf Tai (Cymru) 2014* i fanylu bod gan bobl sy'n cysgu ar y stryd angen blaenoriaethol am lety fel cam cyntaf mewn dull fesul cam i ddiddymu angen blaenoriaethol yn llwyr, a**
- **gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector digartrefedd i ddatblygu proses gadarn briodol a digonol i ddilysu pobl sy'n cysgu ar y stryd at ddibenion asesu angen blaenoriaethol am lety.**

[Nid oedd Janet Finch-Saunders AC yn cefnogi'r argymhelliad uchod]

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r 'Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd' i ddarparu diweddariadau technegol penodol er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn â'r gyfraith gyfredol. Cyhoeddir y cod diwygiedig hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn a bydd yn destun ymgynghoriad.

Er bod y cod yn cyflwyno llythyr y gyfraith, yr ydym yn derbyn nad ymlynir wrth ysbryd y ddeddfwriaeth bob tro yn ymarferol. O ganlyniad, byddwn yn datblygu canllaw arfer

gorau i ddefnyddwyr ar gyfer cymhwysio dyletswyddau llety dros dro adran 68.

Er hynny, mae cyflawni anghenion yn fater cyflenwi tai yn ei hanfod, ac mae'r Llywodraeth hon wedi datgan yn glir ei hymrwymiad i dai cymdeithasol ac i adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Yr ydym eisoes wedi amlinellu ein parodrwydd i adolygu'r dull gweithredu angen blaenoriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n hollbwysig ein bod yn deall effaith bosibl a chanlyniadau anfwriadol unrhyw newid i'r dull gweithredu presennol, cyn ystyried unrhyw newidiadau i'r angen blaenoriaethol. Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i argymhelliad dau, rydym yn y broses o gomisiynu asesiad annibynnol ac nid ydym eisiau rhagfarnu canlyniad y gwaith hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd (SHIN) i wella data ar bobl sy'n cysgu ar y stryd. Pan fydd yn weithredol, bydd SHIN yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol ar bobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau cyfreithiol i wneud ymholiadau i amgylchiadau unigolion a bodloni eu hunain bod ymgeisydd yn ddigartref. Bydd SHIN yn gwneud hyn yn broses haws yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell, fel mater o frys, bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ar y goblygiadau i awdurdodau lleol a'r sector tai a digartrefedd o ddiddymu angen blaenoriaethol. Dylai hyn gynnwys asesu'r goblygiadau ariannol i awdurdodau yn ogystal ag unrhyw gynnydd posibl yn y galw am lety dros dro. Dylai canlyniad y gwaith hwn gael ei ddefnyddio i sefydlu amserlen fanwl ar gyfer diddymu, i lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol, ac i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 1 uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn comisiynu asesiad annibynnol o'r goblygiadau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid y dull gweithredu presennol angen blaenoriaethol. Bydd yr asesiad annibynnol yn archwilio goblygiadau amrediad o newidiadau posibl er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen.

Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, mae'n bwysig y bydd unrhyw newid i'r dull gweithredu presennol ond yn cael eu cyflwyno pan fydd goblygiadau llawn newid o'r fath yn gwbl hysbys.

Bydd yr asesiad annibynnol hefyd yn archwilio'r ffordd orau o liniaru unrhyw risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid dull gweithredu, gan gynnwys goblygiadau amseru.

Goblygiadau Ariannol: Bydd y gost o gynnal yr asesiad annibynnol yn cael ei thynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn ffafrio derbyn ein hargymhelliad i gael dull fesul cam i ddiddymu angen blaenoriaethol (Argymhelliad 1), mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn:

- diwygio'r diffiniad o "agored i niwed" yn adran 71 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i adlewyrchu cyfraith achosion presennol (dyfarniad *Hotak*), a
- diwygio'r Ddeddf honno i gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio ymhellach y diffiniad o "agored i niwed" drwy orchymyn, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol

Ymateb: Gwrthod

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad dau, bydd Llywodraeth Cymru'n aros am ganlyniad yr asesiad annibynnol o'r goblygiadau o newid y dull gweithredu angen blaenoriaethol. Bydd ond yn bosibl gwneud newid i'r dull presennol pan fydd goblygiadau llawn newid o'r fath yn hysbys.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailsefydlu'r Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion. Nod y grŵp ddylai fod i feithrin cydberthnasau gwaith cryfach a chydweithio rhwng y partiön perthnasol ac i sicrhau ymrwymiad parhaus i weithredu'r Llwybr Cenedlaethol yn effeithiol. Maent hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Gweithgor hwn i wella gwasanaethau cymorth digartrefedd ar gyfer carcharorion sy'n gwneud dedfrydau byr.

Ymateb: Derbyn

Sefydlwyd y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion yn wreiddiol fel grŵp gorchwyl a gorffen a fyddai'n ymchwilio a chefnogi sefydlu proses i sicrhau mynediad cyfartal i bobl a oedd yn gadael y carchar i'r gwasanaethau digartrefedd. Roedd y grŵp yn gyfrifol am ddatblygu'r *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel*, a lanswyd yn Rhagfyr 2015.

Yn dilyn cyhoeddi'r ymchwili i effaith y ddeddfwriaeth (a'r Llwybr) ar y rhai sy'n gadael y carchar, yn ystod Haf 2018, bydd Llywodraeth Cymru'n edrych yn ofalus ar yr

argymhellion. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn ffurfio gweithgor i ganolbwyntio ar y rhai sy'n gadael y carchar er mwyn datblygu'r gwaith yn y maes hwn. Er ein bod yn argymhell yr argymhelliad hwn, rydym yn sicr y bydd yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl ar gyfer y gweithgor newydd yn adlewyrchu canlyniad yr ymchwil, a'i argymhellion.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n weithredol â'r Grŵp Llywio Llety a sefydlwyd yn ddiweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Grŵp yn ystyried yr opsiynau i ehangu'r cynnig llety sydd ar gael i bobl sy'n gadael y carchar.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn ffafrio derbyn ein hargymhelliad i gael dull fesul cam i ddiddymu angen blaenoriaethol (Argymhelliad 1), mae'r Pwyllgor yn argymhell ei bod yn ailsefydlu angen blaenoriaethol awtomatig am lety i'r rhai sy'n gadael y carchar.

[Nid oedd Janet Finch-Saunders AC yn cefnogi'r argymhelliad uchod]

Ymateb: Gwrthod

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad dau, bydd Llywodraeth Cymru'n aros am ganlyniad yr asesiad annibynnol cyn ystyried unrhyw newid i'r dull gweithredu angen blaenoriaethol. Bydd ond yn bosibl gwneud penderfyniad pan fydd y goblygiadau llawn yn hysbys ac y gellir osgoi canlyniadau anfwriadol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried trefniadau ariannu eraill i sicrhau bod canlyniadau ariannol pobl sy'n cysgu ar y stryd yn cael eu rhannu yn fwy cyfartal rhwng yr awdurdod "cartref" (lle mae gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol) a'r awdurdod sy'n darparu gwasanaethau digartrefedd (lle nad oes cysylltiad lleol).

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn ystyried a oes achos dros ddefnyddio trefniadau ariannu amgen a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i rannu'r baich o ddarparu gwasanaethau mewn meysydd penodol i grwpiau penodol. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r ystyriaeth ehangach ar y dull gweithredu angen blaenoriaethol. Oherwydd y bydd unrhyw newidiadau i'r

dull gweithredu angen blaenoriaethol yn cael effaith ar gysylltiad lleol, cyfeirir pob achos yn ffurfiol i'r ardaloedd cartref.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid yw cymorth atal yn ddibynnol ar gysylltiad lleol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i helpu i atal digartrefedd.

Ar gyfer achosion o ddigartrefedd sy'n cael eu diffinio o dan adran 55 Deddf Tai (Cymru) 2014, pan fydd aelwyd yn anfwriadol ddigartref ac mae ganddynt angen blaenoriaethol. Mae dull yn bodoli yn y Ddeddf i gyfeirio'r achos yn ôl i'r ardal gartref. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir cefnogi'r ymgeisydd yn eu hardal o'u dewis, gyda chefnogaeth gan eu hardal gartref.

Ar gyfer pob achos arall, nid yw cysylltiad lleol yn ffactor ynghylch a oes dyletswydd yn ddyledus.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn nodi'n glir y camau y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i sicrhau bod cymorth addas ar gael i bobl sy'n cysgu ar y stryd mewn awdurdod sy'n derbyn cyn unrhyw ailgysylltu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o adolygu'r 'Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd' i ddarparu'r wybodaeth dechnegol benodol ddiweddaraf er mwyn sicrhau eglurder o ran y gyfraith bresennol. Cyhoeddir y cod diweddaedig yn ddiweddarach eleni a bydd yn destun ymgynghoriad.

Er bod y cod yn cyflwyno llythyr y gyfraith, yr ydym yn derbyn nad ymlynir wrth ysbryd y ddeddfwriaeth bob tro yn ymarferol. Yr ydym yn cydnabod hefyd bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n anghyson i bobl sydd y tu hwnt i awdurdodaeth awdurdodau lleol.

O ganlyniad, byddwn yn datblygu deunydd gyda phartneriaid ar ddulliau arfer gorau ar gyfer ailgysylltu.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro defnydd awdurdodau lleol a chanlyniadau gwasanaethau cysylltiad ac ailgysylltiad lleol mewn perthynas â phobl sy'n cysgu ar y stryd. Dylai'r canlyniadau sy'n cael eu cofnodi a'u monitro fod yn fwy na dim ond nodi bod ymgeisydd wedi'i ailgysylltu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r awdurdodau lleol a rhwydwaith SHIN a ellir a sut y gellir casglu gwybodaeth i fonitro'r defnydd o wasanaethau cysylltu ac ailgysylltu lleol a'r canlyniad i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod sefydliadau perthnasol y trydydd sector ac awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n llawn â'r prosiect SHIN.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio, a bydd yn parhau i weithio, gydag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i annog ymgysylltiad â phrosiect SHIN – ond yn y pen draw, wrth gwrs, cyfrifoldeb y sefydliadau eu hunain fydd ymgysylltu'n llawn.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ceisio pwerau dros weinyddu'r Credyd Cynhwysol yn debyg i'r rhai sydd ar gael i Lywodraeth yr Alban.

[Nid oedd Janet Finch-Saunders AC yn cefnogi'r argymhelliad uchod]

Ymateb: Gwrthod

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi datganoli budd-daliadau lles na'r broses o'u gweinyddu i Gymru. Fel mater o egwyddor, dylai bod gan bob un ohonom hawl cyfartal i'n gwladwriaeth les. Dylid cyflawni anghenion dinasyddion yn y DU, lle bynnag y maent yn byw.

Mae gan Lywodraeth yr Alban bwerau o ran hyblygrwydd yr opsiynau talu ar gyfer hawlwr y Credyd Cynhwysol drwy Ddeddf yr Alban 2016. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac wedi cyflwyno 'Dewisiadau'r Alban' yn Hydref 2017. Llywodraeth y DU sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y Credyd Cynhwysol. DWP sy'n gweinyddu'r Credyd Cynhwysol a bydd 'Dewisiadau'r Alban' ond ar gael ar ôl i daliad cyntaf y Credyd Cynhwysol gael ei wneud. Mae'r hyblygrwydd yn golygu y gall hawlwr ddewis derbyn taliad ddwywaith y mis, a bod y budd-dal tai yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord. Gall hawlwr wneud un dewis neu'r ddau. Mae'r broses dechnegol o gyflenwi'r opsiynau yn cael ei rheoli gan DWP.

Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld pob un o hawlwr y Credyd Cynhwysol yn derbyn dewis gwybodus ynglŷn â thalu eu Credyd Cynhwysol, drwy hybu opsiynau talu hyblyg. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau amlach na dim ond unwaith y mis; talu costau tai yn uniongyrchol i'r landlord; a rhannu taliadau i'r rhai sy'n dymuno hynny. Mae'r opsiynau hyn eisoes ar gael i'r rhai sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru, ac nid oes angen datganoli budd-daliadau na'r broses o'u gweinyddu.

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi ysgrifennu sawl tro at Weinidogion DWP yn gofyn iddynt roi mwy o ystyriaeth i gynnig y dewisiadau gwybodus hyn yn rhagweithiol i hawlwr yng Nghymru. Mae DWP wedi cytuno yn awr i sefydlu Bwrdd ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar faterion gweithredu'r Credyd Cynhwysol. Mae'r Bwrdd wedi pennu rhai blaenoriaethau cychwynol sy'n ystyried opsiynau talu hyblyg ac ymestyn y porth landlordiaid i landlordiaid yng Nghymru wrth gyflwyno gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol. Mae'r porth landlordiaid yn helpu i gyflymu'r broses dilysu rhenti.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i weld beth yw'r rhesymau dros y lefel gymharol isel o dai cymdeithasol sy'n cael eu dyrannu i deuluoedd digartref. Yn dilyn hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu i gynifer â phosibl o deuluoedd digartref.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu data yn awr ar y nifer o ddyraniadau i aelwydydd digartref gan landlordiaid cymdeithasol, sy'n cysylltu hyn i'n gwaith ar feddiant a chamau troi allan yn erbyn tenantiaid. Yr ydym yn gweithio gydag Arweinyddiaeth Tai Cymru a'r sector i sefydlu a chyflwyno arfer gorau ar gartrefu aelwydydd sy'n agored i niwed a'u cynorthwyo i gadw eu llety. Byddwn hefyd yn ailystyried data dyraniadau yn y dyfodol er mwyn sefydlu pa welliannau a wnaed.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei *Chynllun Gweithredu Cysgu Allan*, amlinellu'n fwy eglur y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella mynediad at y sector rhentu preifat ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd, gan gynnwys manylion am gymhellion i landlordiaid preifat. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro canlyniad y gwaith hwn a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch hyn.

Ymateb: Derbyn

Ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, mae gwella'r mynediad i'r Sector Rhentu Preifat wedi bod yn faes y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi canolbwyntio'n benodol arno. Mae gan y Sector Rhentu Preifat rôl allweddol yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy safonol a darparu mwy o ddewis i dderbynwyr Tai yn Gyntaf. Rydym wedi gweld cyfran sylweddol o'r cyllid pontio a ddyrannwyd i awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio at y diben o gynyddu'r cyflenwad o eiddo o'r sector preifat sydd ar gael i bobl ddigartref. Ar gyfer pobl sy'n rhentu, mae fforddiadwyedd, ansawdd a diogelwch daliadaeth yn broblemau gwirioneddol iawn iddynt. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi, ac mae'n parhau i roi pwyslais sylweddol ar sicrhau bod y sector rhentu preifat yn cael ei reoleiddio'n dda a'i reoli'n dda. Drwy hyn gallwn helpu i sicrhau ei fod yn darparu ateb hirdymor hyfyw i'r rhai sy'n dewis neu sydd angen rhentu yn y sector preifat.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal asesiad o'r modd y defnyddiwyd cyllid pontio i wella mynediad at y Sector Rhentu Preifat, beth sydd wedi llwyddo a beth fu'n llai llwyddiannus ar hyd a lled Cymru, gyda'r bwriad o hysbysu ein cynlluniau tymor hwy a sicrhau bod y Sector Rhentu Preifat yn cael yr effaith fwyaf bosibl yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y gwersi y gellir eu dysgu o'r prosiect Cam wrth Gam yn Rhondda Cynon Taf, gyda'r bwriad o gyflwyno prosiectau tebyg ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y gwerthusiad a'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect Cam wrth Gam ac ystyried sut y gallai awdurdodau lleol fabwysiadu egwyddorion allweddol y gwasanaeth.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion yn ei *Chynllun Gweithredu Cysgu Allan* o ran sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i wella'r broses o symud ymlaen o lety brys.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio'n flaenorol bod y cynllun yn ddogfen sy'n esblygu a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu'r manylion sydd eu hangen ar y camau angenrheidiol i gyflawni yn erbyn y cynllun.

Yr ydym yn cydnabod bod symud o lety brys / llety â chymorth yn hollbwysig, a'i bod yn hanfodol cael llwybr effeithiol i symud pobl drwy'r system. Bydd gan awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector preifat rôl yn cefnogi pobl i adennill eu hannibyniaeth.

Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid hyn i adolygu'r sefyllfa bresennol o ran y trefniadau er mwyn nodi a hyrwyddo arfer gorau.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y *Cynllun Gweithredu Cysgu Allan* yn nodi'n gliriach:

- **pwy fydd yn gyfrifol am weithredu pob cam; a'r**
- **canlyniadau a ddisgwylir yn erbyn y camau gweithredu, a sut y caiff y rhain eu mesur a'u monitro (y tu hwnt i'r trefniadau adrodd chwarterol y cyfeirir atynt yn y Cynllun).**

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio'n flaenorol bod y cynllun yn ddogfen sy'n esblygu a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu'r manylion sydd eu hangen ar y camau angenrheidiol i gyflawni yn erbyn y cynllun.

Bwriedir i'r cynllun fod yn ddogfen fyw a fydd yn esblygu er mwyn ymateb i dystiolaeth newydd. Wrth i'r cynllun esblygu, bydd fersiynau diweddaredig yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cyhoeddi adroddiadau chwarterol ar y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno gwybodaeth i'r Cynulliad yn flynyddol ar y cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun gweithredu. Er bod y cynllunio yn caniatáu ar gyfer adroddiadau chwarterol, nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi adroddiadau chwarterol.

Bwriedir i'r cynllun fod yn ddogfen fyw a fydd yn esblygu er mwyn ymateb i dystiolaeth newydd. Wrth i'r cynllun esblygu, bydd fersiynau diweddaredig yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y prif ffocws fydd cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun, yn hytrach na chreu systemau adrodd rhy fiwrocraidd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun Gweithredu Cysgu Allan gael ei rannu ar y cyd rhwng y Gweinidog Tai ac Adfywio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ymateb: Derbyn

Mae Ffyniant i Bawb yn esbonio'n glir mai'r flaenoriaeth yw tai ac mai sylfaen byw'n dda yw cartref fforddiadwy, o safon uchel, sy'n cyflwyno amrediad eang o fuddion i iechyd, dysgu a ffyniant. Er mwyn cyflawni yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio ar draws ffiniau portffolio traddodiadol i gyflenwi'r agenda hon a rennir. Y Gweinidog Tai ac Adfywio fydd yn parhau i fod yn Weinidog arweiniol, ond bydd yn gweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidogion perthnasol eraill ar weithredu'r cynllun drwy waith traws-lywodraethol clir sy'n ategu Ffyniant i Bawb.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu ei *Chynllun Gweithredu Cysgu Allan* i gynnwys camau ataliol pellach y gellir bwrw ymlaen â hwy i atal cysgu ar y stryd yng Nghymru, gan gynnwys cysylltiadau clir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai'r camau gweithredu hyn gael eu llywio gan y sylfaen dystiolaeth ryngwladol a dylent roi sylw i achosion a ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chysgu ar y stryd.

Ymateb: Derbyn

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan i ystyried y sylfaen dystiolaeth ryngwladol. Wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg bydd y cynllun yn esblygu i ystyried hynny. Wrth i'r cynllun esblygu, cyhoeddir fersiynau diweddedig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cryfhau *Tai yn Gyntaf - Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru* i nodi disgwyliad y dylai awdurdodau lleol gynnig Tai yn Gyntaf fel dull diofyn i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried atgyfnerthu Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod Tai yn Gyntaf ar gyfer y bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth ac efallai na fydd yn addas ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd.

Mae Tai yn Gyntaf yn un o ystod o opsiynau tai gwahanol y gellir eu cynnal i bobl sy'n cysgu ar y stryd, a gwyddom fod llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn cynyddu'r defnydd ohono.

Mae'r ddogfen egwyddorion yn fan cychwyn a bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn agos iawn yn awr ar y prosiectau Tai yn Gyntaf hynny a ariannwyd yn yr hydref y llynedd i hysbysu unrhyw benderfyniadau ynglŷn â chyflwyno Tai yn Gyntaf ymhellach yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o fodelau "ymgynnull" a "gwasgaredig" Tai yn Gyntaf, gan dynnu ar y sylfaen tystiolaeth ryngwladol, gan gynnwys yr hyn a nodir yn nogfen Crisis; *Ending Rough Sleeping: What Works? An international evidence review*, gyda'r bwriad o sicrhau bod y ddau fodel yn atebion tai addas ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu dogfen egwyddorion Tai yn Gyntaf, fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd, adolygiad o fodelau rhyngwladol Tai yn Gyntaf. Bydd y broses hon o ddadansoddi tystiolaeth ryngwladol ac o'r DU, megis ymchwil Prifysgol Caerefrog ar Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc, yn parhau, ochr yn ochr â gwerthusiadau o'r prosiectau sy'n weithredol yn awr yng Nghymru, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau peilot yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i nodi modelau arfer gorau i ddarparu cefnogaeth allgymorth pendant ac i adlewyrchu hyn yn y Cod Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd.

Ymateb: Derbyn

Bwriedir i'r 'Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd' gynorthwyo gyda'r dehongliad o Ran VI Deddf Tai 1996 a Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.

Ochr yn ochr â'r canllaw hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i nodi enghreifftiau o arfer gorau o allgymorth pendant a bydd yn eu hyrwyddo. Bydd hyn yn cynnwys allgymorth pendant i bobl sy'n cysgu ar y stryd a'r rhai a allai fod yn cael anhawster i gadw eu llety.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i annog gwasanaethau ataliol i hyrwyddo eu gwaith yn weithredol a sicrhau eu bod yn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf o fewn eu hardaloedd lleol.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y *Cynllun Gweithredu Cysgu Allan* yn nodi disgwyliad ar awdurdodau lleol a'u partneriaid y dylai'r gwasanaethau allgymorth pendant gael eu datblygu a'u cyflwyno ar y cyd â Tai yn Gyntaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae allgymorth pendant yn elfen allweddol o weithio gyda rhai o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd ar draws ein cymunedau ac mae hyn yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru, sy'n ariannu nifer o gynlluniau drwy'r Grant Atal Digartrefedd.

Mae dogfen egwyddorion Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yn esbonio'n glir bod dewis yn un o egwyddorion sylfaenol y dull gweithredu. Felly, bydd angen i ni ystyried yn ofalus sut y gellir gwneud y defnydd gorau o allgymorth pendant i gefnogi Tai yn Gyntaf fel rhan nesaf o ddatblygu polisi, heb danseilio egwyddorion craidd dewis.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- **nodi disgwyliadau clir y dylai swyddogion gorfodi awdurdodau lleol gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi PATH; ac**
- **annog gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru i ymgysylltu â'r rhaglen hyfforddi PATH, ac yn ymrwmo'r gwasanaeth i hwyluso nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n manteisio ar y rhaglen.**

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwerthuso cam cyntaf hyfforddiant PATH yn awr. Rydym eisoes yn ymgysylltu gyda CLILC ac awdurdodau lleol i annog ymgysylltiad yng ngham nesaf yr hyfforddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) ychwanegol ar draws pedair ardal yr heddlu yng Nghymru. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i nodi'r ffordd orau i gynnig

hyfforddiant i PCSO yn benodol ar Ddigartrefedd a dulliau gwybodus trawma. Mae swyddogion yn yr Isadrn Diogelwch Cymunedol yn llywio Cyfarfodydd Grŵp Llywio bob tymor, gyda chynrychiolwyr o bedair ardal yr heddlu yng Nghymru, i gyflenwi dull cydgysylltiedig o ran y ddarpariaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru. Y Grŵp Llywio hwn yw'r cyfrwng priodol ar gyfer datblygu'r hyfforddiant hwn ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru gyda'r bwriad o annog pob heddlu yng Nghymru i sicrhau bod swyddogion yn defnyddio camerâu a gaiff eu gwisgo ar y corff wrth ryngweithio â phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru ac felly bydd yn defnyddio'r fforwm hwn fel cyfle i annog y pedair ardal heddlu yng Nghymru i ddefnyddio camerâu ar eu cyrff wrth ryngweithio â phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud gwaith i asesu rhinweddau cynlluniau rhoi ailgyfeiriedig a nodi'r arfer gorau yn y maes hwn. Dylai hyn lywio unrhyw ymgyrch gyhoeddus gan y llywodraeth i gael cefnogaeth i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio pryderon y cyhoedd o ran cysgu ar y stryd. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn penderfynu ar ffordd ymlaen briodol.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau clir y dylai unrhyw gynlluniau rhoi ailgyfeiriedig gael eu cymell gan yr angen i gefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd a'u datblygu mewn ymgynghoriad llawn â'r sector digartrefedd.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'n fwiad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau o ran cynlluniau rhoi ailgyfeiriedig.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd yn nodi'r angen i hyrwyddo neges gadarnhaol i'r cyhoedd ar y ffordd orau i gefnogi rhywun sy'n cysgu ar y stryd. Bwriedir i hyn ganolbwyntio ar ddileu stigma a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r problemau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi Streetlink, sy'n galluogi i aelodau'r cyhoedd gysylltu â phobl sy'n cysgu ar y stryd gyda gwasanaethau lleol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 27

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, yn pennu llinell amser ar gyfer:

- **cyhoeddi canfyddiadau ei Chynlluniau Braenaru Cyllid Hyblyg; a'i**
- **phenderfyniad ar y cynnig i uno Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gyda grantiau tai eraill a grantiau nad ydynt yn ymwneud â thai.**

Dylai'r llinell amser hon ystyried y gwaith datganoli sydd ar y gweill ar gyfer yr elfen dai ar gyfer tai â chymorth byrdymor i Gymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei bod yn bwysig parhau i gynnal trafodaethau effeithiol gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod hwy, a rhanddeiliaid eraill, yn ymwybodol o waith y cynlluniau braenaru ac unrhyw ganfyddiadau sy'n deillio ohonynt. Rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd misol ar y cynlluniau braenaru gyda saith awdurdod lleol y cynlluniau braenaru a rhanddeiliaid allweddol o CLILC, WCVA a Cymorth yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi i Lywodraeth Cymru gael gwell dealltwriaeth o newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y cynlluniau braenaru mewn ymateb i'r rhaglen cyllid hyblyg yn ogystal â rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol. Yn ogystal, rydym yn hwyluso trafodaethau rhwng yr awdurdodau lleol eraill i ddysgu cymaint ag y gallant gan y cynlluniau braenaru.

Bydd y dystiolaeth a gesglir o'r ymgysylltiad hwn a'r enghreifftiau eraill o ymgysylltu yn ffurfio agwedd bwysig a fydd yn hwyluso'r penderfyniad, a bydd angen gwneud y penderfyniad hwn ar yr adeg iawn ac nid yn ôl amserlen ddisymud o reidrwydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 28

Os yw canfyddiadau'r Cynlluniau Braenaru Cyllid Hyblyg yn dangos gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl, neu'n amau ynghylch gallu'r sector i gynnal y gwasanaeth ar y lefelau presennol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl barhau i fod yn grant ar wahân sydd wedi'i neilltuo.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymrwymedig i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed a sicrhau bod y canlyniadau'n gwella ar gyfer pobl ddifreintiedig a grwpiau agored i niwed. Yn 2018/19 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol braenaru wario o leiaf yr un swm ar Cefnogi Pobl â dyraniad 2017/18 oni allant ddangos eu bod yn gallu cyflawni'r un canlyniadau, neu ganlyniadau gwell, am lai. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro hyn.

Egwyddor hollbwysig sy'n ategu'r grant Ymyrraeth Gynnar, Gwaith Ataliol a Chefnogaeth yw'r ffocws ar ganlyniadau. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflenwi'r canlyniadau ar draws yr holl raglenni sy'n ceisio cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys cyflawni'r canlyniadau hynny sy'n cael eu cyflenwi drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd y gwerthusiad annibynnol yn profi cyflwyniad cyllid hyblyg y cynllun braenaru a sut y gallai hyn effeithio ar y broses gyflenwi yn y tymor hwy. Defnyddir hyn, a thystiolaeth arall, i ddylanwadu ar y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 29

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu sicrwydd pellach y bydd y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan yn cael digon o adnoddau, y bydd cyllid traws-lywodraethol ar gael, ac y bydd cyllid i sicrhau y caiff y Cynllun ei weithredu'n effeithiol yn parhau i gael ei adolygu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi'n helaeth mewn dulliau i atal pob math o ddigartrefedd, gyda £10 miliwn ychwanegol yn 2018/19 ac yn 2019/20 yn ogystal â £10 miliwn ychwanegol ar gyfer digartrefedd ieuencid yn 2019/20.

Ni fwriedir i linellau gwariant unigol gael eu haseinio i'r cynllun, oherwydd mae llawer o'r gwaith hwn eisoes yn cael ei ariannu neu mae'n ymwneud â gwella arfer presennol. Pan fydd angen buddsoddiad ychwanegol ar gyfer datblygiadau megis Tai yn Gyntaf, rydym wedi dangos ein hymrwymiad drwy ddarparu cyllid ychwanegol y llynedd i gefnogi prosiectau peilot. Wrth i'r cynllun esblygu a thystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, gan gynnwys gwerthusiad o'r cynlluniau braenaru presennol, byddwn yn ystyried a oes angen cyllid ychwanegol ai peidio.

Goblygiadau Ariannol: Dyrannwyd £10 miliwn ychwanegol eisoes yn y gyllideb ar gyfer 2018/19 ac 2019/20 er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd, gan gynnwys cysgu ar y stryd. Felly, telir am unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol y rhaglen.